

# TALFYRIAD LWGS. S. 202

Hanes Bywyd a Gharwolaeth

Parch. George Whitfield.

---

YNGHYD A

MARWNAD I'R UNRHYW:

GAN Y DIWEDDAR

Barch. WILLIAM WILLIAMS,

*o Bant-y-Celyn.*

---

GANWYD Y

PARCHEDIG GEORGE WHITFIELD,

YN

*Nghaerloyw. Rhagfyr, 16eg, 1714.*

Ymddangosodd neillduol ddifrifwch ynddo yn foreu, ac ystyriaethau dwys  
yn ei feddiannu yn aml am grefydd a mater enaid; fel oddiwrth ei  
ddall trefnus o fyw: efe, y'nghyd ag amryw eraill o wyr Ieuange  
difrifol, a gawsant mewn gwawd yr enw Methodistiaid.

---


CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN M. JONES, HEOL-Y-PRIOR.

1835.

15183.

1205316602.



15183

p WG16-12

## TALFYRIAD.

---

---

**B**u am ysbaid o amser yn llafurio gydâ'r Eglwys sefydledig, ond yn fuan caasant ef allan o'u hareith-faoedd hwynt; ac yna pregethai ar hyd y prif-ffyrdd a'r caeau, yn nghyd â phob man lle cafai wahoddiad! "Meddyliais" medd efe ar yr achos, "y byddwn yn gwneud gwasanaeth i fy Nghreawdwr, yr hwn oedd a mynydd yn areithfa, a'r nefoedd yn sein-fwrdd iddo; yr hwn pan wrthodwyd yr efengyl gan yr Iuddewon, a anfonodd ei weision i'r prif-ffyrdd a'r caeau." Yr oedd rhyw gyffro rhyfedd am grefydd yn ei ddilyn trwy yr holl wlad ddifraw a chysglyd, yn gymmaint ag y dywedwyd am dano wedi iddo bregethu dair-gwaith yn un o drefydd America, nad oedd un tŷ yn y dref heb swm difrifol am grefydd ynddo. Mewn llythyr at un o'i gyfeillion yn America, dywed, "Y mae'r Arglwydd yn gweithio yn rymus yn America, y mae yn llawr fy enaid â gwedd ei wyneb, ac yn peri i mi fyned rhagof yn orfoleddus, Gras! Gras!— Y mae fy nefoedd wedi dechreu yn wir. Yr wyf yn gwledda ar y llo pasgedig."

Yr oedd ei gynnulleidfa oedd yn cynnwys yn aml dros ugain mil o wrandawyr, ac yr oedd rhyw ddy-lanwadau anarferol a grymus iawn weithiau arno ef a'r bobl; nes y byddent yn wylo ac yn ochain dros oriau, ac yn treulio aml ddarnau o nosweithiau gydâ'u gilydd yn wylo, a rhai yn gorfoleddu, ac yn methu ym-adael a'u gilydd; ond byddai llais gweddi a mawl i'w glywed trwy yr holl nos yn y caeau. Wrth weini yr ordinhad o swper yr Arglwydd, yr oedd y tyrfa oedd mor lluosog, fel ag y byddai dros ugain o weinidogion yn gweini, pawb yn bywhau eu gilydd, ac yn cael eu bywhau gan eu gilydd.

Anaml y clybuwyd am weithiwr mwy ffyddlon a difess, neu am fendith mwy helaeth yn dilyn llafur neb. Er hyny dangoswyd llawer o elyniaeth yn ei erbyn oddiwrth grefyddwyr pleidiol a rhagfarnllyd, ac oddiwrth y byd trythyll ac anfoesgar, ond myned rhagddo yr oedd ef a gwaith ei Arglwydd yn siriol ac yn dirion, trwy barch ac anharch—yn caru ei elynion, ac yn gwneuthur lleshad i bawb, heb sylwi llawer ar ddim ond gwaith ei Arglwydd ac achos eneidiau dynion, er myned trwy greulonderau mawrion; unwaith curwyd arno yn ddirugaredd yn ei wely, dro arall llychiwyd ef â meini, nes yr oedd yn waed dros-to, ac agos a cholli ei anadl, ac o braidd y diangodd am ei fywyd. 'Derbyniais,' medd ef, "lawer dyrnod, a chefais fy archolli, ond yr wyf yn gadael fy erlidwyr i'w ddwylaw ef, yr hwn o erlidwyr yn aml a wnaeth bregethwyr. Gweddias ar Dduw am i mi gael dial felly arnynt." Yr oedd yn aml yn ewyno o ran ei iechyd, ond yr oedd yn barnu fod teithio a phregethu yn gwneud lles iddo, fel y dywedai, er ei fynych wendid, 'etto, y Pulpit yw fy meddyginiaeth.' 'Nac ofnwch,' meddai mewn llythyr at Mr. Harvey, "eich corph gwan, yr ydym yn anfarwol nes y byddo ein gwaith wedi ei orphen," ac mewn man arall y dywedai, "yr wyf yn llosgi gan dwymyn, a chefais anwyd trwm; ond y mae presennoldeb Crist yn peri i mi wenu ar boen, a thân ei gariad ef sydd yn llosgi y twymynon i gyd. Y mae gwahoddiadau yn cael eu hanfon ataf o amrywiol fanau, y mae arnaf eisiau mwy o dafodau, mwy o gyrph a mwy o eneidiau i lasurio dros yr Arglwydd Iesu. Pe bai genyf ddeng mil, efe a'u ca'i hwynt i gyd." Unwaith yn yr America cafodd lewyg trwm, fel y meddyliodd ei gyfeillion, ei fod wedi marw; ond trefnodd Duw hi yn amgen, gwellâodd yn raddol drachefn; yn fuan wedi hyn yr oedd gwraig ddu yn ewyllysio ei weled. Hi a ddaeth, eisteddodd ar lawr, ac a edrychodd yn graff arno, yna hi dorodd allan, 'meistr, aethoch i borth y nefoedd, ond dywedodd Iesu Grist, dos i lawr, dos i lawr, ni chai ddyfod yma etto; dos yn gyntaf a galw ryw Negroes tlodion.' Ar ei daith unwaith cyfarfu a Mr. Harvey a Dr. Doddridge, ac am y cyfarfod hwn yr ysgrifennodd Mr.

Harvey fel y calyn :—"Gwelais yn ddiweddar y gweinidog tra ardderchog hwnw i Iesu Grist, Mr. Whitfield. Ciniawais, swperais a threuliais brydnawn gydag ef a Dr. D. yn Northampton. A dilys na threulais brydnawn mwy hyfryd erioed, nac yn tebygu yn fwy i ddedwyddwch y nef. O'm rhan i ni's gwelais neb yn fwy tebyg i'n Harglwydd, na'r fath ddelfyw o hono, nac un yn ymhyfrydu mor ardderchog yn Nuw, yn meddiannu y fath ewyllys da i dŷyn, y fath ffydd gadarn yn yr addewidion dwyfol, a'r fath awydd-fryd gwresog am y gogoniant dwyfol; a'r cwbl o hyn heb ddim sarugrwydd nac afrywiogrwydd tymher nac ymddygiad afresymol, ond gwedi ei hyfrydu â'r sirioldeb tymher mwyaf ennillgar, ac wedi ei lywodraethu a'i reoli gyda holl sobrwydd rheswm a doethineb ysgrythol, ni's gallaf lai na chymmwyso atto eiriau Solomon am wraig rinweddol: "Llawer mab a weithiodd yn rymus, ond ti a ragoraist arnynt oll!" Ac medd Mr. Wesley am dano, "Pa mor fawr yr anrhydeddodd Duw ef! A glywsom neu a ddarllenasom am un dyn wedi dyddiau yr apostolion yr hwn a dystiolaethodd am efengyl gras Duw trwy wledydd mor eang, trwy ran mor helaeth o'n byd ni? a ddarllenasom neu a glywsom am un yn offerynol i alw cynnifer o filoedd, ie, o filiynau o bechaduriaid i edifeirwch, ac o seddiant satan at Duw?"

Y tro diweddar yn America cyn iddo bregethu y bregeth olaf, sylwodd un Mr. Clarkson arno, ei fod yn fwy anesmwyth nac arferol, dywedodd wrtho, "yr ydych yn fwy addas i fyned i'r gwely nâg i bregethu," atebodd Mr W. "gwir syr," a chan droi o'r neilldu, plethodd ei ddwyllaw yn nghyd, a chan edrych i fynu, dywedodd, "Arglwydd Iesu yr wyf yn flinedig yn dy waith, ond nid ar dy waith. Os nad wyf wedi gorphen fy agyrfa, gad i mi fyned a llefaru drosot unwaith etto, yn y maesydd, seliaw dy wirionedd, dyfod adref, a marw." Y testun y pregethodd arno, oedd 2 Cor. 13. 5. Aeth i *Newbury* gyda y Parch. Mr. Parsons, yr hwn oedd weinidog yn *Newbury*, ac yn nhŷ yr hwn y bu farw.

Y noswaith hono cwynai yn aml yn ei wely fod diffyg anadl arno, eisteddodd i fynu yn ei wely, gweddiodd am fendith ar ei bregethau, cysgodd ych-

ydig drachefn, ond deffrodd yn fuan, a gwaeddodd, "Fy niffyg anadl, fy niffyg anadl," Cyfododd o'i wely, ac aeth i agor y ffenestr am awyr i anadlu. Yn fuan wedi pump o'r gloch, trodd at y gwr oedd gydâg ef, ac a ddywdodd, "yr wyf yn marw!" rhedodd at y ffenestr arall i gael anadl, ond yn ofer. Galwyd y Dr. Sawyer atto, a phan ddaeth a theimlo curiad y gwaed yn yr arddwn, dywedodd ei fod yn marw, ac telly yr oedd. Gwedi rhoddi un anadliad, estynnodd ei draed, ac a fu farw. Claddwyd ef gydâ galar, ond yn anrhydeddus, mewn daear-gell yn y lle hwnw. Gweddiodd y Parch. Daniel Rogers, gweinidog wedi ei alw trwyddo gydâ llawer o effeithioleb a dagrau. Gwaeddodd allan yn ei weddi, "O! fy nhad! O! fy nhad!" attaliodd ac wylodd, yn mron tori ei galon, a'r holl bobl yn wylo oddi amgylch iddo; gorphenodd ei weddi, ac a eisteddodd i lawr, ac a wylodd. Y Parch Mr. Jewel a bregethodd yn ei gladdedigaeth. Dodwyd ei gorph yn y ddaear-gell, ac aeth y bobl adref trwy yr heolydd dan wylo.—Nid oedd Mr. W. yn gyflawn un-ar-bumtheg a deugain oed, pan y bu farw: pedair-ar-ddeg ar hugain o ba rai a dreuliodd yn y weinidogaeth; ac os bernir hyd oes gwr wrth ei lafur, ei lwyddiant, a'i ddefnyddioldeb, a'i gymharu ef a llawer eraill, gellir dywedyd iddo fyw yn llawer hwy nâ hwynt, er estyn eu dyddiau i lawer o oesoedd.

## MARWNAD.

**D**AETH y ce'nfor mawr terfysglyd  
 Im' a newydd trist anhyfryd,  
 Long yn dwyn rhyw air annedwydd  
 O eithafoedd Lloegr Newydd,  
 Fod yn Newbury heddyw'n gorwedd,  
 Wedi gorphen taith o'r diwedd,  
 Ufudd was, ffyddlona ma's, grasol i'r Iesu,  
 Whitfield twyn lareiddiaf hyny,  
 Trwy holl Frydain fu'n pregethu!



- 2 Newydd yw a barodd i mi,  
 Newid lliw ac ymderfysgu,  
 Byddin fawr o bob rhyw ofnau,  
 A ruthasant ar fy nwydau ;  
 Mi ddych'mygais bob rhyw ddrygfyd,  
 Pla, rhyfeloedd, ac afiechyd ;  
 Argoel daw ar bob llaw, gystudd, a thrallod,  
 'Storom fawr pan fyddo gorfod  
 Ar y seintiau fyn'd i'w beddrod.
- 3 'Nawr 'rwy'n gwel'd cymmylau duon,  
 Yn tywyll'r nen yn gyson,  
 Mellt, a chenllysg yn gawodydd,  
 Poethwynt 'stormus gydâ'u gilydd ;  
 Seintiau henaf Duw'n dihengyd,  
 Yn dorfeydd i dir y bywyd ;  
 Gado o'u hol fechgyn ffol, plantas bwhw-  
 manllyd,  
 Ag sydd wedi chwyddo'n enbyd,  
 Gan frathiadau'r sarph wenwynllyd.
- 4 Nid oes genyf barch i rod-di,  
 Bellach fyth i'r Whitfield hyny,  
 Ond gwneud cân os galla'i baro  
 I fyrddiynau gofio am dano ;  
 Fel na anghofier fyth 'mo'i lafur,  
 Tra fo argraph wasg a phapur,  
 Ond bod son am ei po'n dirfawr a'i ludded,  
 Yma a thraw i'r moroedd enbyd,  
 Gan y Cymry, 'r Sais, a'r Indiaid.
- 5 Er na's gwelai ef ond hyny,  
 Etto mi gaf swnio nghanu,  
 Ac mi gaf mewn lloches fechan

- Wyllo Whitfield wrthyf f' hunan ;  
 Yno plediaf ar fy naulin,  
 Ar alluog Fab y Brenin,  
 Yn ei le 'nawr o'r ne', arall i anfon,  
 O'r un ysbryd cywir union,  
 Tra fo fe yn gwisgo'i goron.
- 6 Pan bwy'n meddwl am ei wrando,  
 'Rwy'n dych'mygu mod i yno,  
 Yn gwel'd ei wedd serchogaf dirion,  
 Uwch ben miloedd maith o ddynion ;  
 Geiriau'r nef yn llifo i wared,  
 Llosgi gefyn hen gaethiwed,  
 Dwyfol ras bia'r ma's, fe sy'n teyrnasu,  
 Mae'r erlidwyr hwythau'n methu  
 Gwawdio hyfryd wleddoedd Iesu.
- 7 Lloegr faith sy'n gorfod addeu  
 Mai o'r nefoedd 'roedd ei ddoniau,  
 Ac fe w'yr deheudir Cymru  
 Fod ei athrawiaethau yn ffynnu ;  
 Scotland oer a dystia'n ëon  
 Iddo yno gael ei anfon,  
 'Werddon sy'dywyll ddu, yn addeu'n unfryd,  
 Iddo arwain er ei wynfyd  
 Rhai oddi yno i mewn i'r bywyd.
- 8 Gwn fod Huntington yn wyllo  
 Gloyw ddyfroedd wrth ei gosio,  
 Fod ei *Chaplain* i'angach oedran,  
 Wedi myn'd i'w wlad ei hunan,  
 Pan oedd hi yn meddwl blaenu  
 Arno i'r ardaloedd hyny,  
 Fel y clywn aeth i mewn i'r wledd ddiderfyn,  
 Rhaid i'r *Lady* aros gronyn  
 Yma etto tros y Brenin.

9 Nid oedd Lloegr fawr yn ddigon,  
 Teyrnas mae miliynau o ddynion,  
 Nid oedd Scotland, nid oedd Cymru,  
 Ddim yn abal a'i ddigoni ;  
 Rhaid oedd marchog moroedd mawrion,  
 Lle mae'r llongau'n teitho'n gyson  
 Drwodd draw heb ddim braw yn erbyn  
 tonnau,  
 I gael ennill rhai eneidiau,  
 O gadwynau tynnon angeu.

10 Prin mae'm hysbryd llesg yn credu,  
 Gwêl y ce'nfor fyth ond hyny,  
 Un yn marchog ar ei gefn  
 Lleied arswyd yr astyllen ;  
 Llong yn cario trysor ynddi,  
 Llawer gwell nâ mwyn Potofi :  
 Cennad gref Brenin nef wedi troi ei gefn  
 Ar ogoniant tir y dwyrain,  
 A'i berth'nasau oll yn llawen.

11 Ac yn myn'd â thrysor dirfin,  
 I ymddifaid y Gorllewin,  
 Aur ac arian wrth y canoedd,  
 Trwy ryw ludded blin a gasglodd,  
 Ac y'nghoedydd anial Georgia,  
 Cododd balas i'r Gorucha',  
 Lle i'r gwan i gael rhan tlodion amddifaid,  
 Bieintiau 'fengyl bur fendigaid,  
 Fel i'r Cymru, Sais, a'r Indiaid.

12 Dysg ac ymborth, gwisg yn gryno  
 Gafodd torf o dlodion yno,  
 Rhwng y coedydd caent yn odiaeth,  
 Glywed geiriau'r Iechydwriaeth ;



Fe fydd miloedd yn bendithio,  
Enw Whitfield fythoedd yno,  
Fe oedd dad goreu gad gynta' desturiodd,  
Wrth drueiniaid tywyll ydoedd  
Heb oleuni pur y nefoedd.

13 Hampshir Newydd ti fu'r ola',  
Gwelodd ef cyn myn'd i wledda,  
Ac i Newbury daeth angylion  
I roi gwys i'r gennad ffyddlon;  
Yno cauodd y pibellau,  
Sydd yn dwyn y gwynt i'r ffroenau,  
Yno daeth marwol saeth angeu dychrynlyd,  
Ac a'i dygodd ef yn hyfryd,  
I ardaloedd tir y bywyd.

14 Enw Whitfield oedd yn gyson  
Gynt yn goglais drylliog galon,  
Heddyw'n hollol sy'n dolurio  
Feddwl fod e' yn yr amdo:  
Welir mo'r credadyn hwnw  
Nes adg'odiad mawr y meirw,  
Mae tan sel doed a ddel, fyth ni ddihunir,  
Nes o'r diwedd yr agorir  
Holl lochesau dyfnion natur.

15 Fe ry' *Newbury* y pryd hyny  
Gorph yr addfwyn sant i fynu:  
Ac fe'i gwelir yn yr wybr  
Megis seren fawr yn eglur:  
Planed ddisglair a fachludodd,  
Yn ffurfafen bell y nefoedd,  
Goleu clir 'fengyl bur ga's y tir hyfryd,  
Ffordd y teithiodd mewn afiechyd,  
I bregethu gair y bywyd.

16 Mae trafaelu wedi gorphen,  
'Nawr o Edinburgh i Lundain !  
Darfu croesi'r môr i 'Werddon,  
Nac i Mouten at y Season ?  
Ni raid iddo ofni oeredd  
Gwyntoedd rhewllyd llym y Gogledd,  
Ac mae'r daith ddyrys faith trosodd i'r India,  
Wedi ei throi heddyw'n wleda,  
Ar y swpiau grawn a'r manna.

17 Dyma'r gennad bur a dreblodd,  
Gylch y ddaear o filltiroedd,  
Ddygodd hannes pen Calfaria,  
I fynyddau maith yr India ;  
Grym efengyl wen fendigaid,  
Draw i'r Negroes ac i'r Indiaid,  
Cymmysg lu, gwyn a du, Saeson a Moeris,  
Blith dra phlith yn nefol hapus,  
A ddaw mewn i'r hen frenhinllys,

18 Nid oedd perygl a'i brawychai,  
Nac o'r moroedd na'r mynyddau,  
Fe gai'r llewod ruo'u gwaetha',  
Yn anialwch coed yr India,  
Ni chai'r arth y blaidd na'r teigr,  
Laesu'i ffydd, na briwo'i hyder,  
Tanllwyth dân oleu lân ganddo'n fur parod,  
Yn y gelltydd maith diddarfod,  
I'dd i'w gadw rhag y llewod,

19 Er mēdd ein grasusaf frenin,  
Bumtheg gwlad yn y gorllewin,  
Ymerodraeth mwy'i mesurau,  
Nâ hên Frydain dair o weithiau,  
Anial maith a thir anhyfryd,

Gynt gan mwyaf na feddiannid ;  
 Etto efe, ffrynd y ne, 'Whitfield a'i teithiodd,  
 A'r efengyl a bregethodd,  
 Er mor arw anial ydoedd.

20 Pensylfania ga'dd ei wrando,  
 'Nawr mae'i threfydd yn och'neidio,  
*Mary-land, New York, Virginia,*  
 De' a gogledd *Carolina,*  
 Lloegr newydd, *Brunswick, Jersey,*  
 Ac aneirif gyda hyny ;  
 Ond tydi Georgia gu, ydoedd yn gyson,  
 Yn mhob terfysg a thrallodion,  
 Fwya'n gwasgu ar ei galon.

21 Brystau tywallt ddagrau'n hidl,  
 Marw'r penna' o wyr dy 'fengyl ;  
 Ni chai glywed fyth ond hyny.  
 Yn *Old Orchard* fe'n pregethu ;  
 Fyth ni weli ei ddwylo cannaid,  
 Yn dyrchafu i'r nef fendigaidd ;  
 Mae e' nghudd yn y pridd oerllyd yn huno,  
 Ac ni's co'd e fyth oddi yno,  
 Nes del Cherubim i'w ddeffro.

22 Ac ni weli fyth o'r dagrau,  
 Mwy yn cwympto tros ei ruddiau,  
 Ni's cai'i wel'd yn eitha'i egni,  
 Yn galw priodasferch Iesu :  
 Bellach fe wna bleiddiaid rheibus  
 Yn dy gorlan waith anafus,  
 'Does ond fe Brenin ne' 'n unig all helpu,  
 Ac o'r rhwydau oll dy dynnu,  
 Sydd yr awrhon am dy dd'rysu.

23 Llundain fawr tydi ga's benna,  
 Ffrynd y nefoedd i'th fugeilia;  
*Tot'nam Court Road* darfu i ti  
 Golli 'r tadmaeth gorau feddi;  
 Y Tabernacl sy'n amddifad,  
 Whitfield fwyn a gafodd alwad,  
 Heddyw llu duwiol sy yno'n och'neidio,  
 Defaid bron a myn'd i grwydro,  
 A'u hathrawon wedi huno.

24 Davies addfwyn gynta' hunodd,  
 Yna Adams a'i canlynodd,  
 'Nawr fe' d'rawyd ar y gwreiddyn,  
 Awd â Whitfield at y werin;  
 Y mae'r bleiddiaid yn cael gwynfyd,  
 Fod bugeiliaid yn dihengyd,  
 Iesu mwyn at dy ŵyn; tyred yn fuan,  
 C'od athrawon dawnus gwiwlan,  
 I fugeilio'th anwyl gorlan.

25 Colled llai i ynys Brydain,  
 Golli'r India fawr ei hunan,  
 Gwell o lawer fuasai iddi,  
 Fod heb dduciaid nac arglwyddi;  
 Gwell pob cystudd, gwell pob aflwydd,  
 Nâ marwolaeth gwas i'r Arglwydd,  
 Prophwyd Duw, bendith yw dros ben ei gyfri,  
 Cerbyd Israel yw'i brophwydi,  
 A'i farchogion duwiol heini.

DIWEDD.

---

*Caerfyrddin: Argraffwyd gan M. Jones.*